Status: *This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 2660 (Cy.284)

CYFRAITH TROSEDD, CYMRU

Rheoliadau Camddefnyddio Sylweddau (Llunio a Gweithredu Strategaeth) (Cymru) (Diwygio) 2011

Gwnaed - - - -	*1 Tachwedd 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*14 Tachwedd 2011*
Yn dod i rym - -	*5 Rhagfyr 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 6(2), (3), (4) a (9)(b) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Camddefnyddio Sylweddau (Llunio a Gweithredu Strategaeth) (Cymru) (Diwygio) 2011, a deuant i rym ar 5 Rhagfyr 2011.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 2007" ("*2007 Regulations*") yw Rheoliadau Camddefnyddio Sylweddau (Llunio a Gweithredu Strategaeth) (Cymru) 2007(**3**).

Diwygio Rheoliadau 2007

2. Diwygir Rheoliadau 2007 fel a ganlyn.

3. Yn lle rheoliad 3 rhodder—

"**Swyddogaethau o ran llunio a gweithredu strategaeth**

3.—(1) Mae grŵp strategaeth i fod ar gyfer pob ardal, a'i swyddogaethau fydd—

(a) paratoi asesiadau strategol; a

(b) paratoi a gweithredu cynllun partneriaeth,

ar gyfer yr ardal honno ar ran yr awdurdodau cyfrifol.

(**1**) 1998 p. 37; amnewidiwyd adran 6 gan adran 22 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 (p. 48) a pharagraff 3 o Atodlen 9 i'r Ddeddf honno, a diwygiwyd hi gan adran 108(4) a (5) o Ddeddf Plismona a Throsedd 2009 (p. 26).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) O.S. 2007/3078 (Cy.265).